“Mae gwirfoddoli yn newid bywyd rhywun arall – **yn ogystal â thrawsnewid eich bywyd chi hefyd.** Mae pob ymweliad, pob gwên, a phob stori a rennir yn dod yn rhan o rywbeth llawer mwy, ac yn brawf bod caredigrwydd yn lledaenu drwy’r gymuned.”

*– Ymwelydd y Gymdeithas, 2025*

# Cydlynydd Ymwelwyr y Gymdeithas

## Proffil y Rôl

Mae Cydlynydd Ymwelwyr y Gymdeithas yn ymgysylltu’n uniongyrchol ag Ymwelwyr y Gymdeithas drwy roi cymorth uniongyrchol a pharhaus iddynt gyflawni eu rolau. Bydd y Cydlynydd yn gweithio gyda staff Cymdeithas Clefyd Motor Niwron (MND) a gwirfoddolwyr lleol.

### Tasgau a gweithgareddau

- Cysylltu a chydweithio â staff a gwirfoddolwyr i adeiladu tîm o gydlynwyr ymwelwyr y gymdeithas yn eu hardal leol
- Cydlynu atgyfeiriadau a chysylltu ymwelwyr y gymdeithas â phobl sy'n byw gyda MND a'r rhai y mae'r cyflwr yn effeithio arnynt yn lleol
- Darparu cymorth uniongyrchol a pharhaus i Ymwelwyr y Gymdeithas yn eu Cangen neu Grŵp. Gall hyn gynnwys hwyluso neu oruchwylio cyfarfodydd, cyfeirio at adnoddau a hyfforddiant, a helpu i ddatrys problemau gyda chymorth staff Cymdeithas MND a gwirfoddolwyr eraill
- Cadw at bolisïau a gweithdrefnau Cymdeithas MND, gan gynnwys Diogelu
- Efallai y bydd y rôl hon yn gofyn am fynychu cyfarfodydd a digwyddiadau. Mae treuliau’n cael eu talu yn unol â’n polisïau.
- Mae’r ymrwymiad amser yn hyblyg ac yn amrywiol yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys gallu personol ac angen lleol.

Mae’r rôl hon yn cael ei recriwtio drwy ein proses Recriwtio Mwy Diogel, sy’n golygu ei bod yn cynnwys cyfweliad anffurfiol, geirda gan ddau ganolwr, a phroses adolygu.  Efallai y bydd angen gwiriad DBS/Access NI fel y bo’n briodol.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cwblhau proses gynefino a chymeradwyo strwythuredig, sy’n cynnwys cwblhau llwybr hyfforddi sy’n benodol i’r rôl.

Bydd gwirfoddolwyr yn cael cymorth lleol parhaus gan eu Cydlynydd Cymorth Cymunedol (CSC) dynodedig.

### Gwybodaeth am ein Cydlynwyr Ymwelwyr y Gymdeithas

Ar draws y Gymdeithas MND, mae popeth a wnawn yn seiliedig ar ein Gwerthoedd.

Rydyn ni’n **Un Tîm Cryf**
- Rydyn ni’n datblygu ac yn cynnal perthnasoedd cadarnhaol a chefnogol, ac yn gofyn am gymorth pan fo angen
- Rydyn ni’n defnyddio sgiliau cyfathrebu gwych i gysylltu â gwirfoddolwyr, staff a phobl y mae MND yn effeithio arnynt
- Rydyn ni’n arweinwyr sy'n hyrwyddo ein hymrwymiad i gefnogi pobl y mae MND yn effeithio arnynt

Mae gennym **Syniadau Mawr**
- Rydyn ni’n barod i wella ein dealltwriaeth o anghenion gwirfoddolwyr/ymwelwyr y gymdeithas
- Rydyn ni’n drefnus iawn ac yn defnyddio ein sgiliau cynllunio i gefnogi pobl y mae MND yn effeithio arnynt
- Rydyn ni’n defnyddio sgiliau TGCh sylfaenol i lwyddo - e.e. Zoom/Microsoft Teams, e-bost, Office 365

Rydyn ni’n **Benderfynol**
- Rydyn ni’n barod i ddysgu am MND a’i effaith ar bobl a’u teuluoedd
- Rydyn ni’n sicrhau ein bod yn cymryd camau i sicrhau ein diogelwch ein hunain a diogelwch pobl eraill
- Rydyn ni’n deall yr angen am ganiatâd, cyfrinachedd a phwysigrwydd diogelu data

Rydyn ni'n gwneud **Y Gorau o Bob Diwrnod**

- Rydyn ni'n hyrwyddo Gweledigaeth a Phwrpas Cymdeithas MND
- Rydyn ni'n sicrhau bod ymwelwyr y gymdeithas yn gallu cael mynediad at y cymorth a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt mewn modd amserol
- Rydyn ni bob amser yn barchus ac yn garedig